# Addysg / Education
## Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service
Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
(01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.llyw.cymru


8 Rhagfyr 2017

Rhieni/Gwarcheidwyr Ysgol Tregarth

Annwyl Riant/Gwarchodwr

***Par: Trefniadau Clwb Gofal Cyn-Ysgol a Chlwb Brecwast Ysgol Tregarth***

Byddwch yn ymwybodol o benderfyniad Cabinet Gwynedd ar 3 Hydref 2017 i godi ffi o 80c y sesiwn am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast, gan roi disgownt i deuluoedd gyda 3 neu ragor o blant.

**Bydd y trefniant newydd hwn yn cychwyn ar 8 Ionawr, 2018.**

Os ydych am ddefnyddio'r Clwb Gofal Cyn-Ysgol, bydd angen bwcio a thalu yn syth am le i'ch plentyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif).

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am drefniadau'r Clwb Gofal Cyn-Ysgol a Chlwb Brecwast yn Ysgol Tregarth.

**Clwb Gofal Cyn-Ysgol**

Bydd y Clwb Gofal Cyn-Ysgol ar agor am **08:00** a bydd ffi o 80c y sesiwn y plentyn am ddefnyddio'r Clwb Gofal Cyn-Ysgol.

Mae disgownt ar gyfer teuluoedd o 3 neu fwy o blant cynradd. Bydd rhieni/gwarcheidwyr sydd â 3 neu fwy o blant yn gallu dewis yr opsiwn disgownt i'r 3ydd plentyn (a phlant dilynol) wrth fwcio sesiwn yn y Clwb Gofal Cyn-Ysgol.

*Gweler canllawiau sy'n egluro'r camau ar gyfer bwcio a thalu am le yn y Clwb Gofal Cyn-Ysgol ar www.gwynedd.llyw.cymru/talueichysgol*

O fod wedi bwcio sesiwn gofal cyn-ysgol, bydd y disgyblion wedi'u cofrestru'n awtomatig ar gyfer derbyn brecwast am ddim.

**Clwb Brecwast am Ddim**

Bydd y Clwb Brecwast am Ddim yn Ysgol Tregarth ar agor am **08:30**. Does dim ffi am y brecwast am ddim. Fodd bynnag, os bydd plentyn yn cyrraedd cyn **08:30** fe fydd yn cael ei ystyried fel un sydd wedi mynychu'r Clwb Gofal Cyn-Ysgol a bydd ffi o 80c yn ddyledus am bob tro bydd hyn yn digwydd. Ni fydd mynediad i'r Clwb Brecwast am Ddim ar ôl **08:40.**

Fe fyddai'n hwyluso trefniadau'r Clwb Brecwast (e.e. er mwyn cynhyrchu cofrestr o'r disgyblion a ddisgwylir i'r Clwb Brecwast ar ddiwrnod penodol) petai rieni/gwarcheidwyr yn bwcio eu plant ar gyfer sesiwn yn y Clwb Brecwast am Ddim yn unig. Fe fydd yr opsiwn i fwcio plant ar gyfer y Clwb Brecwast yn unig ar gael ar-lein hefyd.

Yn gywir

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**


Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru